Cynllun Rhagdalu - Eich Arweiniad Personol

Pam prynu Cynllun Rhagdalu?

- Mae'n lleihau'r baich emosiynol ac ariannol ar berthnasau a chyfeillion
- Dewis o 3 Chynllun Amlosgi Penodedig neu'r opsiwn o ddewis cynllun sydd wedi'i gynllunio'n unswydd i ateb eich gofynion personol
- Angladd yfory am bris heddiw
- Sicrwydd – Cyfarwyddwyr Angladdau mwyaf y DU gyda dros 100 mlynedd o brofiad
- Bydd eich arian yn cael ei gadw'n ddiogel gan CIS (Co-operative Insurance Society Ltd)

Amser i gynllunio... am dawelwch meddwl

Wrth i ni edrych i'r dyfodol, mae'n aml yn golygu paratoi ar gyfer ansicrwydd. Ond mae un peth yn sicr ac yr ydym i gyd yn gwybod amdano ac yn dod i'w ddeall a'i dderbyn wrth i ni fynd yn hŷn.

A phan fyddwn yn meddwl amdano, yr ydym hefyd yn sylweddoli pa mor bwysig yw paratoi am yr amser pan na fyddwn yma mwyach. Fel y rhan fwyaf o bobl, yr ydym am gael y sicrwydd hwnnw y bydd popeth mewn trefn pan ddaw'r amser, ac yr ydym am wneud popeth a allwn i leihau'r baich ar y rhai sy'n bwysig i ni.

Mae ein Cynllun Rhagdalu wedi'i gynllunio gyda dau beth pwysig mewn golwg – yr ariannol a'r ymarferol. Mae'n ffordd syml o dalu ymlaen llaw am gost eich angladd, ac ar yr un pryd gwneud yn siŵr bod eich dymuniadau i gyd yn cael eu cadw.

Gyda'n Cynllun Rhagdalu, cewch gyfle i ddewis eich trefniadau eich hun, wedi eu gwneud yn unswydd i ateb eich anghenion personol. Beth bynnag fo'ch dewis, boed gladdu neu amlosgi, seremoni grefyddol neu ddyneiddiol, pa eglwys neu emynau yr hoffech, yn flodau neu gofebion, ac unrhyw drefniadau arbennig eraill yr hoffech eu gwneud, gall ein Cynllun Rhagdalu ofalu am bob un ohonynt.

Gyda'n Cynllun Rhagdalu byddwch yn dawel eich meddwl na fydd rhaid i'ch perthnasau orfod poeni am effeithiau chwyddiant. A gallwch chwithau fod yn dawel eich meddwl bod eich angladd wedi ei dalu amdano a'ch bod yn gwybod y caiff eich dymuniadau eu parchu. Canlyniad hyn yw dim pryder na straen ar neb, yn awr nac yn y dyfodol.

Amser i feddwl...

Amrywiaeth gynhwysfawr o fuddiannau gyda thawelwch meddwl llwyr

- Dim uchafswm oed na chyfyngiadau iechyd
- Gwneud cais yn syml
- Prisiau sy'n ddiogel rhag chwyddiant
- Dim costau cudd ychwanegol
- Dewis o Gynlluniau i ateb eich anghenion
- Cynllun wedi'i lunio'n unswydd os mai dyna yw eich dewis
- Gyda chefnogaeth y Co-operative Group, y Cyfarwyddwr Angladdau mwyaf yn y DU

Er bod angladd yn anochel i bawb yn y diwedd, bydd y cwestiwn yn codi:

Pam dewis Cynllun Rhagdalu yn awr?

Mae manteisio ar Gynllun Rhagdalu'n gwneud synnwyr am nifer o resymau.

Yn gyntaf, dyma'r ffordd orau o wneud yn siŵr y bydd popeth mewn trefn ac yn cael eu gwneud yn unol â'ch dymuniadau, a bydd yn ysgafnhau'r baich ar eich teulu trwy roi gwybod iddynt beth yn union yw eich dymuniadau.

Yn ail, bydd gwybod bod y Cynllun a ddewiswyd gennych wedi ei dalu amdano ymlaen llaw, yn rhoi tawelwch meddwl i chi a'ch teulu.

Yn drydydd, nid oes rhaid poeni am gael eich derbyn ar y cynllun. Nid oes cyfyngiadau ar uchafswm oed na chyflyrau meddygol. Bydd gennych hefyd ryddid i ddewis yr opsiwn sydd fwyaf addas i'ch sefyllfa ariannol, fel bod modd i chi drefnu eich cyllideb ar sail hynny.

Yn olaf, efallai y byddwch am ddewis math penodol o angladd a threfniadau i gyd-fynd â'ch cynllun. Efallai y byddwch am gynllunio ar gyfer anghenion unigol pellach, er enghraifft, cynnwys ceir ychwanegol, neu benderfynu ar y math o hysbysiadau yr hoffech eu rhoi mewn papurau newydd. Dyma rai enghreifftiau yn unig o'r dewisiadau y gallwch eu gwneud. Mae ein Cynllun Rhagdalu'n rhoi hyblygrwydd llwyr i chi ac os yn bosibl bydd yn ateb eich holl ofynion. Mae'n ffordd syml, ddi-lol o drefnu pethau ymlaen llaw er eich lles chi a'ch teulu, yn unol â'ch dymuniadau.

rhadffôn 0800 289 120

Minicom 0800 298 7488
Ar agor Dydd Llun – Dydd Gwener 8.00am – 6.00pm
Sadwrn 9.00am – 1.00pm
(ac eithrio gwyliau cyhoeddus)

...ac i gael sicrwydd

Gwerth talu am eich Angladd ymlaen llaw

Un o'r prif resymau dros brynu ein Cynllun Rhagdalu yw bod y costau wedi eu diogelu rhag effeithiau chwyddiant ac, felly, byddwch wedi'ch diogelu yn erbyn unrhyw gynnydd ym mhrisiau angladdau. Mae hyn yn golygu nad oes angen i chi, na'ch perthnasau, boeni am gynnydd mewn prisiau o ganlyniad i chwyddiant.

Er enghraifft, ym 1900 roedd angladd nodweddiadol i oedolyn yn costio tua £11 - erbyn y flwyddyn 2000 byddai'r un angladd yn costio £1,500 neu fwy. Yn wir, yn y degawd diwethaf yn unig, gwelwyd cynnydd dramatig ym mhris cyfartalog amlosgi yn y DU - cynnydd enfawr o 70.6%.

Felly mae'r neges yn amlwg:
Trwy dalu ymlaen llaw am eich angladd, rydych wedi'ch diogelu rhag chwyddiant ac rydym ni'n gyfrifol am ysgwyddo unrhyw ddiffyg.

Amser i ddewis...

Cynlluniau Amlosgi Penodedig

Mae gennych ddewis o dri Chynllun Amlosgi Penodedig - Efydd, Arian ac Aur - ynghyd â'r dewis o'n Cynllun Unswydd sy'n cynnwys trefniadau amlosgi a chladdu. I'ch helpu i benderfynu pa Gynllun sydd orau i ateb eich anghenion, rhoddir crynodeb o'r gwasanaethau a gynigir ym mhob Cynllun isod ac ar y dudalen gyferbyn:

	Cynllun Efydd	Cynllun Arian	Cynllun Aur
Ffioedd a gwasanaethau'r Cyfarwyddwr Angladdau	✓	✓	✓
Darparu gwasanaeth angladd a'r trefniadau	✓	✓	✓
Arch draddodiadol effaith Masarn/Derw, wedi ei leinio a'i ffitio	✓		
Arch effaith Llwyfen/ Rhosbren wedi'i sgleinio, ei leinio a'i ffitio		✓	
Arch bren soled hardd, wedi ei leinio a'i ffitio			✓
Hers a'r hebryngwyr angenrheidiol yn yr angladd	✓	✓	✓
Gwasanaeth 24 awr i gludo'r ymadawedig i fan gorffwys addas yn y DU (o fewn radiws o 15 milltir)	✓	✓	✓
Rhoi cyngor ar bopeth sy'n ymwneud â'r angladd	✓	✓	✓
Gofalu, paratoi a phêr-eneinio'r ymadawedig	✓	✓	✓
Ffioedd amlosgi, ffioedd meddyg a chlerigwyr*	✓	✓	✓
Cytundeb rhwng y ddwy ochr ar amser a dyddiad yr angladd (yn amodol ar amodau lleol)	✓	✓	✓
Ymweld â'r capel gorffwys (yn ystod oriau swyddfa) Cymorth mewn profedigaeth trwy fudiad proffesiynol (cymorth a llenyddiaeth)	✓	✓	✓
Rhestr lawn o Roddwyr Blodau a'r Galarwyr		✓	✓
1 cerbyd i ddilyn yr hers		✓	
2 gerbyd i ddilyn yr hers			✓

*Yn amodol ar ein Telerau ac Amodau

rhadffôn 0800 289 120 *Minicom 0800 298 7488*
Ar agor Dydd Llun – Dydd Gwener 8.00am – 6.00pm
Sadwrn 9.00am – 1.00pm
(ac eithrio gwyliau cyhoeddus)

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Chanolfan Gwasanaeth Co-operative Funeralcare ar y Llinell Gymorth am ddim isod, lle bydd ein staff cyfeillgar a phrofiadol wrth law i'ch helpu.

...yr hyn sydd orau i chi

Y Cynllun Unswydd

Trwy ein Cynllun Unswydd unigryw, gallwn wneud eich angladd yn rhywbeth personol sy'n ateb eich union ofynion gan roi cyfle i adlewyrchu eich bywyd a'ch cymeriad.

Mae llawer o bobl sydd wedi trefnu angladd yn teimlo y byddai wedi bod yn well ac yn fwy personol, pe baent yn gwybod beth yn union yr hoffai'r ymadawedig fod wedi ei gael. Mae'r cynllun hwn yn gyfle i chi drafod eich syniadau a'ch gofynion personol â'ch Cyfarwyddwr Angladdau lleol.

Mae'r Cynllun Unswydd yn eich galluogi i ddewis claddu neu amlosgi. Mae'r ffyrdd o ychwanegu at eich Cynllun yn ddiddiwedd. Dyma nifer fach yn unig o syniadau a all eich helpu i benderfynu:

- Dewis chwaraeon fel thema
- Angladd milwrol
- Nodi pa lwybr ddylai gorymdaith yr angladd ei ddilyn gan fynd heibio man sy'n arbennig i chi
- Angladd dyneiddiol
- Hobi/diddordeb fel thema
- Claddedigaeth ar y môr
- Band jazz, pibydd, neu ganwr
- Digwyddiad ar ôl yr angladd
- Angladd ecogyfeillgar
- Arch wiail neu helyg
- Cofeb
- Rhyddhau colomennod
- Hers feic modur neu un sy'n cael ei thynnu gan geffyl

Mae ein Cynllun Unswydd ar gael trwy ymgynghoriad personol heb unrhyw rwymedigaeth gyda staff ein cartref angladdau. Efallai yr hoffech drefnu'r ymgynghoriad hwn yng nghysur a phreifatrwydd eich cartref, neu yn un o'n cartrefi angladd lleol.

Bydd ein timau'n hapus i gynnig awgrymiadau ar sut i wneud eich angladd yn fwy personol.

Am ragor o wybodaeth neu i drefnu Cynllun Unswydd, cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Co-operative Funeralcare ar **0800 289 120**

Amser i ateb eich cwestiynau... ac i dawelu'ch meddwl

Bydd gan bawb sy'n ystyried Cynllun Rhagdalu gwestiynau i'w gofyn. I'ch helpu ag unrhyw gwestiynau a all fod gennych, ceir rhestr isod o'r cwestiynau mwyaf cyffredin a ofynnir i ni.

C: Faint mae'r Cynllun Rhagdalu'n ei gostio?
A: Rhoddir manylion prisiau ein tri Chynllun Amlosgi Penodedig yn y rhestr brisiau ar gefn y llyfryn hwn. Bydd cost Cynllun Unswydd yn amrywio yn ôl eich gofynion. Bydd ein staff yn hapus i drafod y costau gyda chi.
Mae manylion ar sut i dalu wedi eu cynnwys gyda'r Ffurflen Gais.

C: Pa ohebiaeth yn gysylltiedig â'r Cynllun Rhagdalu fyddaf yn ei derbyn?
A: Byddwch yn derbyn Pecyn Croeso ynghyd â Thystysgrif Cynllun Rhagdalu ar ôl i ni dderbyn y taliad yn llawn. Yr ydym yn eich cynghori i gadw'r Dystysgrif mewn man diogel a sicrhau bod eich teulu neu'ch cynrychiolwyr yn ymwybodol o'i bodolaeth gan ei bod yn cynnwys manylion am eich hawl i'r gwasanaethau angladd.

C: A fydd angen gwneud taliad ychwanegol ar adeg yr angladd?
A: Fel arfer, nid fydd angen talu dim yn ychwanegol. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, e.e. newidiadau yn y gyfraith, gall taliadau ychwanegol fod yn ddyledus.

C: A ellir newid neu ganslo fy nhrefniadau?
A: Gellir, gallwch newid neu ganslo eich Cynllun Rhagdalu, gyda'n cydsyniad ni ar unrhyw adeg. Chi yn unig all eu newid. Os byddwch yn penderfynu canslo'r Cynllun, yr ydym yn codi ffi o £90.

C: Beth yw Treuliau?
A: Treuliau yw'r costau a godir gan drydydd parti, ac nid oes gennym unrhyw reolaeth drostynt. Mae'r rhain yn cynnwys (ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt yn unig) ffioedd meddyg, ffioedd eglwys, ffioedd gweinidog, ffioedd organydd, ffioedd côr, ffioedd amlosgfa, costau llain gladdu ac unrhyw ychwanegiadau personol y byddwch yn eu hychwanegu at eich Cynllun Unswydd, e.e. band jazz.

C: Pwy sy'n prynu Cynlluniau Rhagdalu?
A: Mae pobl o bob cefndir, crefydd, priod neu sengl, wedi prynu Cynlluniau Rhagdalu ac wedi elwa trwy baratoi ymlaen llaw ar gyfer eu hangladd.

C: Pwy fydd yn gofalu am yr angladd?
A: Bydd yr angladd yn cael ei drefnu gan y Co-operative Group, cyfarwyddwr Angladdau mwyaf y DU, neu asiant dibynadwy sydd wedi'i gymeradwyo gan y Co-operative Group.

C: Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn marw?
A: Dylai eich perthynas agosaf neu gynrychiolwyr gysylltu â Chanolfan Gwasanaeth Co-operative Funeralcare yn y cyfeiriad sydd wedi'i argraffu ar eich Tystysgrif.
Neu, cysylltwch â Chyfarwyddwr Angladdau agosaf y Co-operative Group.

C: Beth fydd yn digwydd os bydd y person yn marw dramor?
A: Mae ein Cynllun Rhagdalu'n talu cost angladd ar dir mawr Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn unig. Nid yw'n cynnwys angladdau y tu allan i'r gwledydd hyn na'r gost o ddychwelyd yr ymadawedig. Fodd bynnag, gellir gwneud trefniadau ar wahân i ddychwelyd y gweddillion; ffoniwch Ganolfan Gwasanaeth Co-operative Funeralcare am ragor o fanylion.

C: A yw'r pris yr wyf wedi'i dalu wedi'i ddiogelu rhag chwyddiant?
A: Ydy, cyn belled nad yw eich Cynllun Rhagdalu wedi ei newid, ni fydd chwyddiant yn effeithio ar gost yr angladd.

C: Pa gamau a gymerir i sicrhau bod yr angladd yn cael ei wasanaethu?
A: Er mwyn ein galluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau i chi, mae'r holl arian a delir i Gynllun Rhagdalu Co-operative Funeralcare yn cael ei fuddsoddi mewn polisïau yswiriant oes gyfan rhyngom ni â'r Co-operative Insurance Society Ltd.

C: Beth fydd yn digwydd os byddaf yn marw cyn i mi dalu am y Cynllun o'm dewis?
A: Gellir talu'r arian dyledus fel cyfandaliad pan ddaw'n amser i drefnu'r angladd.

C: Beth yw telerau ac amodau'r Cynllun Rhagdalu?
A: Mae'r telerau ac amodau llawn wedi eu cynnwys ar gefn y pecyn hwn ac maent hefyd wedi eu rhestru ar gefn eich Tystysgrif. Yr ydym yn argymell yn gryf eich bod yn eu darllen yn ofalus.

C: Pa bryd gaiff fy nhystysgrif ei hanfon ataf?
A: Bydd Tystysgrifau a phecynnau croeso'n cael eu hanfon atoch pan fydd y taliad llawn ar y Cynllun o'ch dewis wedi'i dalu.

C: Pwy sy'n gymwys?
A: Pawb dros 18 oed; nid oes angen archwiliad meddygol.

Os oes gennych gwestiynau nad ydynt wedi eu hateb yma nac yn unman arall yn y llyfryn, cysylltwch â'n Llinell Gymorth am ddim ar **0800 289 120**, lle bydd ein staff cyfeillgar a phrofiadol wrth law i ateb eich cwestiynau a chynnig cyngor.

Rhadffôn 0800 289 120
Minicom 0800 298 7488
Ar agor Dydd Llun – Dydd Gwener 8.00am – 6.00pm
Sadwrn 9.00am – 1.00pm (ac eithrio gwyliau cyhoeddus)

Amser i gymryd y cam nesaf... i sicrhau gwir dawelwch meddwl

Gall dewis bwrw ymlaen â Chynllun Rhagdalu fod yn benderfyniad mawr, ond yn un a fydd yn rhoi cysur mawr i chi. Dilynwch y cyfarwyddiadau cam wrth gam hyn a byddwch ar y ffordd i gwblhau eich Cynllun Rhagdalu, gan roi'r tawelwch meddwl a'r sicrwydd o wybod eich bod wedi gofalu am bopeth. Cofiwch, os oes gennych unrhyw gwestiynau wrth lenwi'r Ffurflen Gais, ffoniwch Ganolfan Wasanaeth Co-operative Funeralcare ar **0800 289 120**.

Sut i wneud cais am Gynllun Amlosgi Penodedig:

1. Cwblhau'r ffurflen Gais.
2. Cwblhau eich dull talu.
3. Amgaewch y Ffurflen Gais yn yr amlen bwrpasol (nid oes angen stamp) ynghyd â'ch taliad/neu fanylion talu (os yn berthnasol) a'i phostio atom.
4. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Co-operative Funeralcare ar ein Llinell Gymorth am ddim ar y rhif isod, lle bydd ein staff cyfeillgar a phrofiadol wrth law i'ch helpu.

Sut i wneud cais am Gynllun Claddu neu Amlosgi Unswydd:

1. Ffoniwch Ganolfan Wasanaeth Co-operative Funeralcare ar ein Llinell Gymorth am ddim i drefnu ymgynghoriad personol heb rwymedigaeth yn eich cartref angladdau lleol neu ym mhreifatrwydd eich cartref eich hun.
2. Nid oes angen i chi lenwi Ffurflen Gais Cynllun Amlosgi Penodedig.

Rhadffôn 0800 289 120
Minicom 0800 298 7488
Ar agor Dydd Llun – Dydd Gwener 8.00am – 6.00pm
Sadwrn 9.00am – 1.00pm (ac eithrio gwyliau cyhoeddus)

Gallwch hefyd ofyn am wybodaeth trwy anfon e-bost atom yn funeralplans@letsco-operate.com

Pwy yw Co-operative Funeralcare?

Co-operative Funeralcare yw nod masnachu'r Co-operative Group, y Cyfarwyddwr Angladdau mwyaf yn y DU, gyda dros 600 o ganghennau ledled y wlad. Y Co-operative Group hefyd yw'r busnes cydweithredol mwyaf yn y DU, gyda gweithgareddau masnachol mewn nifer o sectorau gan gynnwys ffermio, manwerthu, eiddo, peirianneg, teithio ac angladdau. Mae gan y Co-operative Group sylfaen ariannol gref gyda phrofiad o fasnachu sy'n ymestyn yn ôl dros 100 mlynedd. Os hoffech gael gwybod mwy am sefyllfa ariannol y Co-operative Group, gofynnwch am gopi o'n Hadroddiadau a'n Cyfrifon Blynyddol.

Pam prynu Cynllun Rhagdalu?

- Mae'n ysgafnhau'r baich emosiynol ac ariannol ar berthnasau a chyfeillion.
- Dewis o 3 Chynllun Amlosgi Penodedig neu'r opsiwn o Gynllun Unswydd i ateb eich union ofynion.
- Angladd yfory am bris heddiw
- Sicrwydd – Cyfarwyddwr Angladdau mwyaf y DU gyda dros 100 mlynedd o brofiad
- Bydd eich arian yn cael ei gadw'n ddiogel gan CIS (Co-operative Insurance Society Ltd)

Co-operative Funeralcare a Co operative Group yw nodau masnachu'r Co-operative Group Limited.

Co-operative Group Limited, New Century House, Manceinion M60 4ES. Rhif Cofrestredig 525R.

www.co-operativefuneralcare.co.uk

Y Cynllun Rhagdalu – telerau ac amodau

Cwestiynau cyffredin

A fydd angen gwneud taliad ychwanegol ar adeg yr angladd?

Fel arfer, nid fydd angen talu dim yn ychwanegol. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, e.e. newidiadau yn y gyfraith, gall taliadau ychwanegol fod yn ddyledus.

A yw'r pris yr wyf wedi'i dalu wedi'i ddiogelu rhag chwyddiant?

Ydy, cyn belled nad ydych yn newid eich Cynllun Rhagdalu, ni fydd costau'ch angladd yn codi gyda chwyddiant.

A allaf newid neu ganslo fy nhrefniadau?

Gallwch, gallwch chi newid neu ganslo eich Cynllun Rhagdalu, gyda'n cydsyniad ni, ar unrhyw adeg. Ni all neb arall newid neu ganslo'ch cynllun. Gallwn godi tâl am unrhyw newidiadau. Os byddwch yn penderfynu canslo'ch cynllun byddwn yn codi ffi o £90.

Pwy fydd yn gofalu am yr angladd?

Bydd yr angladd yn cael ei drefnu gan y Co-operative Group (cyfarwyddwr Angladdau mwyaf y DU) neu asiant dibynadwy sydd wedi'i gymeradwyo gan y Co-operative Group.

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn marw?

Dylai eich perthynas agosaf neu'ch cynrychiolwyr gysylltu â Chanolfan Gwasanaeth Co-operative Funeralcare yn y cyfeiriad sydd wedi'i argraffu ar eich Tystysgrif.
Neu, dylent gysylltu â Chyfarwyddwr Angladdau agosaf y Co-operative Group.

Pa gamau a gymerir i sicrhau bod yr angladd yn cael ei wasanaethu?

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein rhwymedigaethau i chi, mae holl arian y Cynllun Rhagdalu a delir i Co-operative Funeralcare yn cael ei fuddsoddi mewn polisïau yswiriant oes gyfan unigol rhyngom ni â'r Co-operative Insurance Society Ltd.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn marw cyn i mi dalu am fy nghynllun?

Gall eich cynrychiolwyr dalu'r arian sy'n ddyledus fel cyfandaliad pan fyddant yn trefnu'r angladd.

Pa bryd fyddwch chi'n anfon fy nhystysgrif ataf?

Byddwn yn anfon eich tystysgrif a phecyn croeso atoch pan fyddwn wedi derbyn y taliad llawn am eich cynllun.

Darllenwch y telerau ac amodau llawn isod.
Diffiniadau

Yn y telerau ac amodau hyn mae gan y geiriau canlynol ystyron penodol.

Mae cynllun o'ch dewis yn cyfeirio at y Cynllun Rhagdalu yr ydych yn ei brynu.

Mae ffurflen gais yn cyfeirio at ein ffurflen gais ni ac y dylech ei llenwi a'i hanfon atom i brynu'r cynllun o'ch dewis.

Mae llyfryn yn cyfeirio at ein llyfryn swyddogol sy'n rhoi'r manylion am ein cynlluniau.

Mae treuliau'n cyfeirio at y costau a godir gan drydydd partion ac sydd y tu hwnt i'n rheolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys (ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt yn unig) ffioedd meddyg, ffioedd eglwys, ffioedd gweinidog, ffioedd organydd, ffioedd côr, costau llain gladdu ac unrhyw ychwanegiadau personol y byddwch yn eu hychwanegu at eich cynllun unswydd.
Mae cynlluniau angladd yn cyfeirio at y cynlluniau a amlinellir yn y llyfryn a'r ffurflen gais, ynghyd ag unrhyw gynllun unswydd a amlinellir ar eich ffurflen gais.

Mae buddiannau cynllun yn golygu'r trefniadau angladd a'r buddiannau y byddwn yn eu darparu o dan y telerau hynny a fodolai pan oeddech yn talu am y cynllun o'ch dewis.

Mae'r buddiannau'n cael eu hamlinellu yn y llyfryn (neu, yn achos cynllun unswydd, yn y ffurflen gais).

Mae Ni yn cyfeirio at y Co-operative Group Limited, Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus a gofrestrwyd yn Lloegr â'r rhif 525R. (Mae cyfeiriad ein swyddfa gofrestredig i'w gael ar gefn y telerau ac amodau hyn, ac yn y llyfryn.)

Mae Tystysgrif yn cyfeirio at y dystysgrif y byddwn yn ei hanfon atoch pan fyddwch wedi talu'n llawn am y cynllun o'ch dewis.

Mae pris yn cyfeirio at bris y cynllun o'ch dewis fel sy'n cael ei ddangos yn y llyfryn neu ar y ffurflen gais.

Mae cynrychiolwyr yn golygu ysgutorion, ymddiriedolwyr, cynrychiolwyr personol neu gynrychiolwyr eraill sydd wedi eu penodi a'u hawdurdodi'n gyfreithiol i weithredu ar eich rhan (neu ar ran eich enwebai os yn briodol) ar ôl eich marwolaeth.

Mae trefniadau talu'n cyfeirio at y dull talu yr ydych wedi'i ddewis i dalu am y cynllun o'ch dewis ac yr ydych yn cytuno i gadw ato. Rhoddir manylion am y dulliau talu yn y llyfryn neu, yn achos cynllun unswydd, yn eich ffurflen gais.

Mae cynllun unswydd yn cyfeirio at ein Cynllun Angladd Unswydd.

Mae Chi yn cyfeirio at y person sy'n gwneud cais am y Cynllun Rhagdalu.

Mae enwebai'n cyfeirio at unrhyw berson a enwir ar y ffurflen gais yr ydych yn prynu'r cynllun ar eu cyfer.

Mae cynllun amlosgi penodedig yn cyfeirio at ein cynlluniau Efydd, Arian ac Aur, fel yr amlinellir yn y llyfryn.

Telerau ac amodau

1 Y Ffurflen gais

Trwy anfon eich ffurflen gais atom, yr ydych yn cytuno i brynu'r cynllun o'ch dewis gennym o dan y telerau hyn. Er mwyn derbyn buddiannau'r cynllun, rhaid i chi dalu'n llawn am y cynllun, yn unol â'r telerau hyn.

2 Cyhoeddi eich tystysgrif

Pan fyddwch wedi talu am y cynllun o'ch dewis, yn unol â'r trefniadau talu, byddwn yn anfon eich tystysgrif atoch. Pe baech yn colli neu ddifrodi'r dystysgrif, dylech roi gwybod i ni, trwy lythyr, ac fe anfonwn gopi atoch.

3 Os na fyddwch yn cadw at y trefniadau talu

Os na fyddwch yn cadw at y trefniadau talu ar unrhyw adeg, gallwn ganslo'r cynllun o'ch dewis a dychwelyd yr arian yr ydych wedi'i dalu i ni o dan y trefniadau talu, llai ffi weinyddol o £90.

4 Newid eich cynllun neu brynu cynllun gwahanol

Oni bai bod y cynllun o'ch dewis yn gynllun unswydd, ni allwn newid nac addasu'r cynllun, er enghraifft, trwy ychwanegu neu dynnu eitemau neu fuddiannau unigol. Yn achos cynlluniau unswydd yn unig, gallwn gytuno i newid buddiannau'r cynllun os byddwch yn gofyn i ni wneud hynny trwy lythyr. Gallwn godi tâl arnoch am wneud hyn, ac ni fydd rhaid i ni gadw at y newid oni bai ein bod wedi cytuno i wneud hynny. Rhaid i chi anfon eich tystysgrif, neu unrhyw gopi yr ydym wedi ei anfon atoch, pan fyddwch yn gofyn i ni gytuno i newid unrhyw ran o'r cynllun.

Os byddwch yn ysgrifennu atom i ofyn a allwch brynu cynllun arall yn lle'r cynllun o'ch dewis, gallwn gytuno i wneud hyn. Os byddwn yn cytuno, bydd rhaid i chi gadw at unrhyw delerau rhesymol ychwanegol (gan gynnwys telerau'n ymwneud â thalu) a bennir gennym. Rhaid i chi anfon eich tystysgrif (neu unrhyw gopi o dystysgrif yr ydym wedi'i anfon atoch) pan fyddwch yn gofyn i ni gytuno i wneud hyn.

5 Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn unig

Mae buddiannau'r cynllun ar gael i angladdau ar dir mawr Prydain Fawr ac yng Ngogledd Iwerddon yn unig. Os byddwch yn marw y tu allan i'r mannau hyn, neu os ydych am i'ch angladd gael ei gynnal y tu allan i'r mannau hyn, mae gennym hawl i ad-dalu'r taliadau yr ydych wedi'u gwneud i chi neu eich cynrychiolwyr, fel bydd yn briodol. Os byddwn yn gwneud hyn, ni fydd gennym unrhyw gyfrifoldebau pellach i ddarparu buddiannau'r cynllun neu, gallwn godi ffi ychwanegol i ddarparu gwasanaethau'r angladd. Cynllun Rhagdalu – telerau ac amodau

6 Argaeledd

Gall treigl amser a newidiadau i amgylchiadau personol effeithio ar argaeledd rhai trefniadau, megis lleiniau claddu penodol yr ydych wedi gofyn amdanynt. Os digwydd hyn, bydd rhaid i ni ddarparu mannau neu wasanaethau eraill rhesymol yn eu lle, neu gyfarwyddo asiantau dibynadwy i drefnu'r angladd ar ein rhan. Os na fyddwch chi neu'ch cynrychiolwyr yn cytuno â'r cynlluniau amgen, byddwn yn canslo'r cynllun o'ch dewis a byddwn yn dychwelyd eich holl daliadau o fewn 28 diwrnod ar ôl canslo'r cynllun. Os byddwn yn gwneud hyn, ni fydd gennym gyfrifoldebau pellach i ddarparu buddiannau'r cynllun.

7 Canslo'r cynllun o'ch dewis

Gallwch ganslo'r cynllun o'ch dewis ar unrhyw adeg hyd at eich marwolaeth (os ydych yn prynu'r cynllun ar eich cyfer eich hun) neu farwolaeth yr enwebai (os ydych yn prynu'r cynllun ar gyfer rhywun arall). Os ydych am ganslo'r cynllun o'ch dewis, rhaid i chi roi rhybudd ysgrifenedig i ni a (os ydym wedi anfon tystysgrif atoch) bydd rhaid i chi anfon eich tystysgrif (neu unrhyw gopi yr ydym wedi'i anfon atoch) atom. (Ni allwn ddychwelyd unrhyw arian yr ydych wedi'i dalu oni bai ein bod yn derbyn eich tystysgrif). Byddwn wedyn yn ad-dalu'r holl daliadau yr ydych wedi'u talu am y cynllun o'ch dewis, llai ffi canslo o £90. Os byddwch yn canslo'ch cynllun o fewn 14 diwrnod ar ôl anfon eich ffurflen gais atom, ni fydd rhaid i chi dalu'r ffi canslo. Ni all eich cynrychiolwyr ganslo'r cynllun o'ch dewis ar ôl eich marwolaeth (neu ar ôl marwolaeth yr enwebai).

Os byddwch chi neu eich cynrychiolwyr yn trefnu i ddarparwr angladdau arall ddarparu eich angladd (neu angladd yr enwebai), neu os na allwn ddarparu'r angladd oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth (er enghraifft, tywydd garw, streic, neu dân), yna mae gennym hawl i ganslo'r cynllun o'ch dewis ac ad-dalu'r holl daliadau i chi neu eich cynrychiolwyr. Os byddwn yn gwneud hyn, ni fydd gennym unrhyw gyfrifoldebau pellach i ddarparu buddiannau'r cynllun.

8 Trefn gwyno

Os oes gennych gŵyn am y cynllun o'ch dewis, ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad a roddir dros y dudalen. Byddwn yn cydnabod eich cwyn o fewn pum niwrnod gwaith, ac yna byddwn yn ceisio datrys y gŵyn o fewn 28 diwrnod arall.

9 Darparu buddiannau'r cynllun

Nid oes rhaid i ni ddarparu unrhyw fuddiannau sy'n rhan o'r cynllun hyd nes eich bod wedi talu'n llawn am y cynllun o'ch dewis, yn unol â'r trefniadau talu. (Nid yw hyn yn berthnasol yn achos cynlluniau rhagdalu rhannol.)

Ar ôl eich marwolaeth (neu farwolaeth yr enwebai) rhaid i'ch cynrychiolwyr roi'r canlynol i ni:

- eich tystysgrif marwolaeth chi (neu un yr enwebai) a thystysgrif y cofrestrydd; a'r
- dystysgrif (neu gopi a gyhoeddwyd gennym).

Ni allwn ddarparu buddiannau'r cynllun oni bai ein bod wedi derbyn y dystysgrif, y dystysgrif marwolaeth a thystysgrif y cofrestrydd. Ni fyddwn yn rhoi ad-daliad os byddwch chi neu eich cynrychiolwyr yn penderfynu peidio derbyn unrhyw fuddiannau y mae gennych hawl iddynt fel rhan o'r cynllun.

10 Taliadau

Rhaid i chi dalu'n unol â'r cytundeb talu. Gallwn ofyn i sefydliad arall gasglu neu dderbyn y taliadau.

11 Cynlluniau y talwyd amdanynt yn rhannol

Os ydych wedi dewis cynllun ond heb dalu amdano'n llawn erbyn eich marwolaeth (neu farwolaeth yr enwebai), bydd gan eich cynrychiolwyr yr opsiwn o dalu'r swm sy'n ddyledus fel cyfandaliad, a byddwn yn cyhoeddi tystysgrif i chi neu hwy fel prawf o'r taliad. Rhaid i ni dderbyn y taliad hwn cyn y gallwn drefnu'r angladd. Os na wneir hyn, ni allwn ddarparu buddiannau'r cynllun. Os yw'n well gennych, gall eich cynrychiolwyr ddewis canslo'r cynllun o'ch dewis (os nad ydych wedi talu'n llawn amdano) trwy ysgrifennu atom. Mewn achos o'r fath, byddwn yn dychwelyd yr holl daliadau a wnaethpwyd o dan y cynllun o'ch dewis. Os digwydd hyn, ni fydd gennym unrhyw gyfrifoldebau pellach i ddarparu buddiannau'r cynllun.

12 Cyfrifoldeb dros hawlio

Yr ydych chi neu eich cynrychiolwyr yn gyfrifol am hawlio buddiannau'r cynllun.

13 Amlosgi

Os yw'r cynllun o'ch dewis yn cynnwys amlosgi, bydd buddiannau'r cynllun yn cynnwys:

- ffioedd amlosgi'r amlosgfa leol;
- unrhyw ffioedd a godir gan feddyg (hyd at yr uchafswm a bennir gan Gymdeithas Feddygol Prydain); a
- ffi'r gweinidog (hyd at lefelau a argymhellir)

Ni fydd buddiannau'r cynllun yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer cerddoriaeth yn yr amlosgfa, organydd, côr, gwasanaeth y tu allan i oriau arferol a ffioedd gweinidogion dros y lefelau a argymhellir, a bydd rhaid i chi neu eich cynrychiolwyr dalu'r rhain.

14 Angladd unswydd

Yr ydych chi neu eich cynrychiolwyr yn gyfrifol am brynu'r llain gladdu, oni bai ei bod hynny wedi'i gynnwys yn benodol yn y cynllun o'ch dewis, a'ch bod wedi talu amdano.

15 Arian a buddiannau cynllun heb eu hawlio

Os oes buddiannau sy'n rhan o gynllun heb eu hawlio erbyn eich pen blwydd chi (neu eich enwebai) yn 110 oed, neu ein bod wedi'n hysbysu y gallech chi (neu eich enwebai) fod wedi marw, yna gallwn ysgrifennu atoch yn y cyfeiriad diweddaraf sydd gennym, i ofyn a ydych yn dal i fwriadu hawlio buddiannau'r cynllun. Os na fyddwn yn clywed gennych o fewn 56 diwrnod ar ôl ysgrifennu atoch, byddwn yn tybio eich bod wedi dewis peidio hawlio buddiannau'r cynllun, a gallwn ganslo'r cynllun o'ch dewis a chadw unrhyw daliadau a wnaethpwyd.

16 Costau ychwanegol

Mae gennym hawl i godi symiau rhesymol ychwanegol:

– am dynnu aelodau artiffisial a dyfeisiadau megis rheoliaduron y galon; ac – i adlewyrchu effaith unrhyw newidiadau mewn rheoliadau, y dreth a'r gyfraith sy'n ymwneud â pherfformiad ein buddiannau. Yr ydym yn cytuno i gludo'r corff, os bydd angen, hyd at bellter o 15 milltir yn unig. Os byddwch am i ni gludo'r corff ymhellach na 15 milltir, bydd gennym hawl i godi tâl rhesymol am y milltiroedd ychwanegol.

Nid yw ein cynlluniau rhagdalu'n cynnwys treth ar werth (TAW) oherwydd nad yw'n cael ei chodi ar wasanaethau angladd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os bydd polisi'r Llywodraeth yn newid a bod TAW yn cael ei chodi ar wasanaethau angladd neu unrhyw ran ohonynt yn y dyfodol, yna yr ydym yn cadw'r hawl i adennill y gost hon oddi arnoch chi neu eich cynrychiolwyr.

17 Cyffredinol

Mae'r telerau ac amodau hyn, ynghyd â'r llyfryn a'ch ffurflen gais yn ffurfio cytundeb rhyngom ni a chi o ran y cynllun o'ch dewis a threfniadau'r angladd. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawliau sydd gennych fel defnyddiwr, sy'n prynu nwyddau a gwasanaethau. Nid oes gan unrhyw berson arall (gan gynnwys yr enwebai neu eu cynrychiolwyr) unrhyw hawl o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partion) 1999 i orfodi unrhyw un o delerau'r cytundeb hwn. Nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw hawliau eraill sydd gan y bobl hyn. Os nad oes unrhyw ran o'r cytundeb hwn yn effeithiol, bydd gweddill y cytundeb yn parhau i fod yn weithredol. Mae Cyfraith Loegr yn weithredol yn achos y cytundeb hwn. Ni fyddwn yn talu unrhyw log ar y taliadau yr ydych yn eu gwneud i brynu'r cynllun o'ch dewis.

Y telerau ac amodau fel sy'n ddilys ym Mai 2007.

Cyfeiriad gohebiaeth: Co-operative Funeralcare, Funeral Plan Team, 5th Floor, Trafford Plaza, 73 Seymour Grove, Manceinion M16 0LD

Canolfan Wasanaeth Funeral Plan
Llinell Gymorth am ddim: 0800 328 7083
www.co-operativefuneralcare.co.uk

Co-operative Funeralcare yw nod masnachu Co-operative Group Limited, New Century House, Manceinion, M60 4ES Rhif Cofrestru 525